RHIF ARCHEB ADRA:	DYDDIAD:

O:	Adra (Tai) Cyfyngedig (cymdeithas gofrestredig o dan y Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014; wedi'i gofrestru gyda rhif 30776R), ei swyddfa gofrestredig yw Tŷ Coch, Llys y Dderwen, Parc Menai, Bangor, LL57 4BL. ("Y Cleient")
I:	[ ] (rhif cofrestru'r cwmni [ ]) mae ei swyddfa gofrestredig yn [ ] ("**y Contractwr**")

MANYLION Y CLEIENT		**MANYLION Y CONTRACTWR**	
Cynrychiolydd		Cynrychiolydd	
Cyfeiriad y Cleient		Cyfeiriad y Contractwr	
Rhif Ffôn y Cleient		Rhif Ffôn y Contractwr	
E-bost y Cleient		E-bost y Contractwr	

MANYLION Y PROSIECT:	
Safle	
Disgrifiad o'r Prosiect	

GWAITH CONTRACT
Yw [dylunio ac] adeiladu […] gan gynnwys holl lafur, cyfarpar a deunyddiau angenrheidiol
MANYLEB
Sydd wedi'i chynnwys yn [y Dogfennau wedi'u Rhifo] / [y dyfynbris dyddiedig …]
DULL PRISIO
[Pris sefydlog] / [Ail-fesur yn unol â'r atodlen o gyfraddau dyddiedig ….]
CYFLAWNADWY CYN CYCHWYN
[Datganiadau dull / asesiadau risg] [Tystiolaeth o yswiriant atebolrwydd cyhoeddus [ac indemniad proffesiynol] [Gweithredoedd gwarant o blaid XXXX] [Tystysgrif CIS gwreiddiol, cyfredol a dilys] [Rhaglen y Cleient]

Swm y Contract	
Rhaglen	
Dyddiad Cychwyn wedi'i gynllunio	
Dyddiad Cwblhau wedi'i gynllunio	
Dyddiad y Cais	26ain o bob mis neu'r diwrnod busnes agosaf os nad yw'r 26ain yn ddiwrnod busnes
Dyddiad dyledus talu	7 diwrnod o Ddyddiad y Cais
Dyddiad terfynol ar gyfer talu	21 diwrnod o'r dyddiad dyledus ar gyfer talu
Cyfnod Atebolrwydd Diffygion	[ ]
Cadw %	[ ]
Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr	£[ ] miliwn isafswm lefel indemniad fesul digwyddiad neu gyfres o ddigwyddiadau
Yswiriant indemniad proffesiynol	£[ ] miliwn isafswm lefel indemniad fesul digwyddiad neu gyfres o ddigwyddiadau
IAWNDAL YN DEILLIO O DDATODIAD	[£[ ] yr wythnos neu ran ohono] neu [wedi'i adael yn wag yn fwriadol]
Prif Gontractwr	Y Prif Gontractwr at ddibenion Rheoliadau CDM yw'r [Contractwr]
Prif Ddylunydd	Y Prif Ddylunydd at ddibenion Rheoliadau CDM yw'r [Contractwr]

AMODAU YCHWANEGOL
Mae'r Contractwr yn derbyn ac yn cytuno i gymryd cyfrifoldeb am Bresenoldeb a nodir yn yr Atodlen

Wedi'i lofnodi i ac ar ran y Contractwr
MAE'R CONTRACTWR TRWY HYN YN DERBYN YR ARCHEB, YR ATODLEN AC AMODAU CONTRACT ADRA (TAI) CYFYNGEDIG (GORFFENNAF 2021) DRWY GYCHWYN AR Y GWAITH, PARHAU Â'R GWAITH NEU DRWY LOFNODI'R ARCHEB HON. MEWN UNRHYW ACHOS, LLOFNODWCH A DYCHWELWCH UN COPI O DUDALEN FLAEN YR ARCHEB HON AR GYFER EIN COFNODION

…… Wedi'i lofnodi i ac ar ran y Contractwr	…… Dyddiad

Dogfennau wedi'u Rhifo

1.0	
2.0	
3.0	
4.0	
5.0	
6.0	
7.0	
8.0	
9.0	
10.0	

[Presenoldeb:]

Eitem		Dyraniad cyfrifoldeb	
		Contractwr	**Cleient**
	Cario ayyb		
	Dadlwytho		
	Storio		
	Codi â Hoist		
	Cario/symud		
	Craen		
	Derbyn deunyddiau/danfoniadau		
	Darparu cyfleusterau		
	Cyfleusterau toiled		
	Trefniadau yn ystod egwyl		
	Goleuadau Diogelwch		
	Ffôn		
	Goleuadau Tasg		
	Mynediad i Sgaffaldiau		
	Sgaffaldiau Cefnogi		
	Sgaffaldiau Diogelwch		
	Ysgolion a Llwyfannau		
	Gwasanaeth Pŵer		
	Rhaniad Pŵer		
	Cyfarpar ac offer bach		
	Yn gyfrifol am		
	Goleuadau a gwylio		
	Gwarchod gwaith Isgontractwyr		
	Gwarchod gwaith arall yn yr ardal		
	Cynnal Profion (os oes angen)		
	Clirio ysbwriel yn ystod Gwaith Isgontractwyr		
	Clirio ysbwriel a gwastraff ar ôl cwblhau		
	Sgipiau Gwastraff		
	Pibelli ysbwriel		
	Dyluniad y Gwaith Is-gontractio		

Mae'r diffiniadau canlynol yn gymwys yn y Contract hwn:

"Dyddiad Cychwyn Gwir"	yn golygu'r dyddiad y mae'r Contractwr yn cychwyn perfformio'r Gwaith;
"Gwir Gwblhau"	yn golygu'r dyddiad yr hysbysir bod y Gwaith wedi'i gwblhau yn ymarferol yn unol â chymal 6.1:
"Cais"	yn golygu cais am daliad ac y mae'n rhaid cynnwys: (a) Lle mae'r Gwaith (neu ran ohono) ar gyfer pris, cyfandaliad sefydlog, cyfanswm gwerth y Gwaith a gafodd ei berfformio hyd at ddyddiad y Cais; neu (b) Lle mae'r Gwaith (neu ran ohonynt) yn ail-fesuradwy , cyfanswm gwerth y gwaith a gafodd ei berfformio hyd at ddyddiad y Cais a wiriwyd yn unol â chymal ý11; (c) Didyniad ar gyfer: Cadw cymwys, unrhyw daliadau sydd eisoes wedi'u gwneud gan y Cleient ac unrhyw symiau eraill sydd wedi'u didynnu'n briodol o dan y Contract neu'r gyfraith; a (d) Swm Treth ar Werth sydd wedi'i godi'n briodol ar hynny (boed yn daladwy gan y Cleient neu wedi'i gyfrifo gan y Cleient yn unol â'r tâl rifersiwn domestig).
"Arfer Gorau'r Diwydiant"	yn golygu'r safonau sydd oddi fewn i chwartel uchaf yn y diwydiant perthnasol ar gyfer darparu gwasanaethau cymharol sydd fwy neu lai yn debyg i'r Gwasanaethau neu'r rhan berthnasol ohonynt, o ystyried ffactorau fel natur a maint y partïon, lefelau'r gwasanaeth, y cyfnod, strwythur prisio ac unrhyw ffactorau perthnasol eraill.
"Rheoliadau CDM"	Rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli) 2015
"Newid"	yn golygu cyfarwyddyd i amrywio'r Gwaith mewn unrhyw ffordd, gan gynnwys cyfarwyddyd i newid y Rhaglen (gan gynnwys Dyddiad Cychwyn wedi'i Gynllunio neu Ddyddiad Cwblhau), y drefn, amserlen, swm, ansawdd, manyleb o unrhyw waith ac ychwanegu a/neu hepgor unrhyw waith;
"Digwyddiad lawndal"	yn golygu'r ystyr yng nghymal 4.1
"Amodau"	yn golygu'r amodau yma;
"Contract"	yn golygu'r Amodau a'r Archeb, ynghyd ag unrhyw ddogfen arall sydd wedi'i hymgorffori yn y Contract hwn
"Swm y Contract"	yn golygu'r swm sydd wedi'i nodi yn yr Archeb ac oni bai y nodwyd bod hyn yn ail-fesuradwy (naill ai yn llawn neu yn rhannol), mae Swm y Contract yn bris cyfandaliad sefydlog cadarn. Os yw'r Gwaith yn gyfan gwbl neu yn rhannol yn ail-fesuradwy, bydd y rhan ail-fesuradwy o Swm y Contract yn cael ei bennu yn unol â phwynt (b) yn y diffiniad o'r Cais;
Diffygion (Cyfnod Atebolrwydd Diffygion)	Yn golygu un flwyddyn galendr o'r Dyddiad Cwblhau Gwir, neu unrhyw gyfnod o'r fath fel sydd wedi'i ddatgan yn yr Archeb;
"Dogfennau"	yn golygu holl luniadau, cynlluniau, modelau, manylebau, atodlenni, adroddiadau, cyfrifiadau a gwaith arall (gan gynnwys heb gyfyngu i unrhyw eitemau sydd wedi'u cadw mewn unrhyw feddalwedd cyfrifiadur neu gyfrwng electronig arall) sydd wedi neu a fydd yn cael eu paratoi gan neu ar ran y Contractwr (gan gynnwys gan isgontractwyr) wrth wneud y Gwaith naill ai sy'n bodoli neu sydd i'w wneud neu gynhyrchu;
"Archeb"	yn golygu'r archeb hon ar gyfer y Gwaith sydd wedi'i ofyn amdano gan neu ar ran, y Cleient i'r Contractwr;
"Dyddiad Cychwyn wedi'i Gynllunio"	Yn golygu'r dyddiad a nodir yn yr Archeb y gellir ei amrywio yn unol â'r Contract hwn;
"Dyddiad Cwblhau wedi'i Gynllunio"	yn golygu'r dyddiad a nodir yn yr Archeb y gellir ei addasu yn unol â'r Contract y mae'r Gwaith i gyrraedd Gwir Gwblhau;;
"Rhaglen"	yn golygu'r rhaglen ddiweddaraf ar gyfer y Gwaith y gellir ei gyfathrebu i'r Contractwr o dro i dro;
"Cadw"	yn golygu'r ffigur a nodir yn yr Archeb neu os nad oes ffigur wedi'i nodi, 5% o Swm y Contract;
"Safle"	yn golygu'r safle/safleoedd lle mae'r Gwaith i gael ei berfformio, fel y mae'n cael ei nodi, o bosib yn yr Archeb;
"Manyleb"	yn golygu unrhyw fanyleb y cyfeirir ato yn yr Archeb gan gynnwys yr hyn y cyfeirir ato mewn unrhyw Ddogfennau wedi'u Rhifo.
"Gofynion Statudol"	yn golygu unrhyw Ddeddf gan Senedd y Deyrnas Unedig neu Senedd Cymru, unrhyw offeryn, rheol, canllaw, penderfyniad neu orchymyn a wnaethpwyd o dan unrhyw Ddeddf gan Senedd y Deyrnas Unedig neu Senedd Cymru neu unrhyw reoliad neu is-ddeddf unrhyw awdurdod lleol neu unrhyw ymgymerydd statudol (gan gynnwys yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch neu unrhyw gorff sy'n ei olynu) sydd gan awdurdodaeth o ran y Gwaith, neu unrhyw gynsail barnwrol a osodwyd gan lysoedd Cymru a Lloegr;
"Gwaith"	yn golygu'r dyluniad (lle'n berthnasol), gweithgynhyrchu, cyflenwi, dosbarthu, gosod, adeiladu, comisiynu a phrofi gwaith a nodir yn yr Archeb ac sy'n cael ei ddisgrifio'n llawnach yn y Fanyleb neu unrhyw ddogfennau eraill sy'n cael eu hymgorffori yn y Contract hwn.

1 CYMHWYSO AMODAU

1.1 Wrth i'r Cleient osod archeb, neu wrth i'r Contractwr gyflwyno dyfynbris, cychwyn gwaith neu barhau â'r gwaith, mae'r Contractwr yn cytuno i ddelio â'r Cleient ar yr Amodau yma gan eithrio holl delerau, amodau, gwarantau neu gynrychioliadau eraill y mae'r Contractwr yn ceisio eu gosod neu eu hymgorffori, neu sy'n cael eu hawgrymu drwy fasnach, arfer, neu wrth ddelio.

1.2 Ni fydd amrywio'r Amodau yma yn ymrwymo'r partïon oni bai eu bod yn ysgrifenedig ac wedi'u llofnodi gan y naill barti a'r llall.

1.3 Mae'r Contract yn cynrychioli'r cytundeb cyfan rhwng y partïon.

1.4 Bydd yr Amodau hyn yn goruchafu unrhyw ddogfen arall sy'n ffurfio rhan o'r Contract ac eithrio'r Archeb a fydd yn goruchafu'r Amodau yma.

1.5 Bydd yr Amodau yma yn gymwys i'r Gwaith o'r dyddiad pryd y mae'r Contractwr yn cychwyn ar y Gwaith. Tybir bod unrhyw Waith sy'n cael ei ymgymryd ag ef cyn dyddiad y Contract yn cael ei wneud yn unol â a bydd yn cael ei lywodraethu gan y Contract hwn.

1.6 Mae'r Contractwr yn cydnabod nad oes unrhyw ffurf o gyfyngu neu warant swm wedi'i roi gan y Cleient ac mae gan y Cleient bob amser yr hawl i ymrwymo i gontractau a threfniadau eraill gyda chontractwyr eraill ar gyfer darparu unrhyw neu'r holl waith sydd yr un fath neu yn debyg i'r Gwaith.

1.7 Mae cyfeiriad yn y Contract hwn at ddiwrnod busnes yn unrhyw ddiwrnod nad yw'n ddydd Sadwrn, dydd Sul neu ŵyl banc yn Lloegr a Chymru.

2 RHWYMEDIGAETHAU'R CONTRACTWR

2.1 Bydd y Contractwr yn cychwyn ar y Gwaith ar y Dyddiad Cychwyn sydd wedi'i Gynllunio fel y gellir ei amrywio yn unol â'r Contract hwn.

2.2 Bydd y Contractwr yn ymgymryd gydag, ac yn cwblhau'r Gwaith mewn ffordd briodol a chrefftus, gyda sgil a gofal rhesymol ac yn unol â darpariaethau'r Contract hwn, y Fanyleb, a holl Ofynion Statudol am y tro sydd mewn grym gan gynnwys (heb gyfyngu) i'r rhieni yn berthnasol i iechyd, diogelwch, lles, yr amgylchedd, caethwasiaeth fodern, atal llwgrwobrwyo ac atal llygredd, hawliau a pherthnasoedd cyflogaeth, hawliau gwaith, hawliau dynol, diogelu data a chydraddoldeb, codau cymwys o arfer gorau'r diwydiant a chyfarwyddiaeth resymol o'r fath (gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i Newidiadau) a gyflwynir gan y Cleient.

2.3 Heb gyfyngu ar y rhwymedigaeth gyffredinol a nodir yng nghymal 2.2, mae'r Contractwr yn ymgymryd, ac yn indemnio'r Cleient yn achos torri'r cymal hwn, 2.3, bydd yn (a bydd yn caffael bod cyflogeion y Contractwr ac isgontractwyr yn):

(a) bob amser yn cydymffurfio gyda darpariaethau Deddf Hawliau Dynol 1998 wrth berfformio'r Contract hwn. Bydd y Contractwr hefyd yn ymgymryd gyda, neu yn ymatal rhag ymgymryd gyda, gweithredoedd y mae'r Cleient yn gofyn i alluogi'r Cleient i gydymffurfio gyda'i holl rwymedigaethau o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998;
(b) peidio â gwahaniaethu yn anghyfreithlon o fewn ystyr a chwmpas unrhyw gyfraith, deddfiad, gorchymyn neu reoleiddiad yn berthnasol i wahaniaethu mewn cyflogaeth;
(c) cydymffurfio gyda holl Ofynion Statudol perthnasol a bydd yn defnyddio Arfer Gorau'r Diwydiant wrth gwblhau'r Gwaith
(d) sicrhau nad oes unrhyw gaethwasiaeth, masnachu pobl, llwgrwobrwyo neu lygredd yn digwydd yn neu gan ei gadwyni cyflenwi;
(e) hysbysu'r Cleient ar unwaith os yw'n dod yn ymwybodol o unrhyw achosion gwir neu os oes amheuaeth o achosion o gaethwasiaeth, masnachu pobl, llwgrwobrwyo neu lygredd yn ei gadwyni cyflenwi
(f) bob amser yn cynnal ei fusnes mewn ffordd sy'n gyson gydag unrhyw bolisi atal caethwasiaeth, atal llwgrwobrwyo ac atal llygredd y Cleient a bydd yn darparu i'r Cleient unrhyw adroddiadau neu wybodaeth arall y bydd y Cleient o bosib yn gofyn amdano fel tystiolaeth bod y Contractwr yn cydymffurfio gyda' Cymal yma 2.3 (f) a / neu fel y bydd gofyn neu fel arall y bydd gofyn gan y Cleient yn unol â'i bolisïau atal caethwasiaeth, atal llwgrwobrwyo ac atal llygredd

2.4 heb gyfyngu ar y rhwymedigaeth gyffredinol a nodir yng nghymal 2.2, ni fydd y Contractwr yn cynnal ei fusnes mewn ffordd a fyddai ym marn y Cleient yn colli enw da'r Cleient.

2.5 Mae'r Contractwr yn ymgymryd gydag, ac yn gwarantu ei fod wedi ymarfer, a bydd dal yn ymarfer, sgil rhesymol, gofal a diwydrwydd, yn unol â'r Contract hwn i weld nad yw wedi nodi neu ddewis ar gyfer defnydd, ac ni fydd yn nodi nac yn dewis ar gyfer defnyddio, a (fel yn briodol) nid yw wedi awdurdodi na chymeradwyo, ac ni fydd yn awdurdodi nac yn cymeradwyo, nodi, dewis neu ddefnydd gan eraill unrhyw gynnyrch neu ddeunydd neu arfer adeiladu neu dechneg sydd wedi'i wahardd gan y Contract hwn a'r dyluniad sydd wedi'i ddatblygu gan y Gwaith neu nad yw'n cydymffurfio â Safonau Prydeinig neu Safonau'r Undeb Ewropeaidd sy'n gymwys i nwyddau, deunyddiau ac sy'n berthnasol i'r Gwaith a/neu arfer Gorau'r Diwydiant neu sydd ar adeg:

(a) y fanyleb, dewis, cymeradwyo neu awdurdodi yn hysbys yn eang i aelodau o broffesiwn y Contractwr i fod yn niweidiol, neu beryglus i iechyd a diogelwch neu wydnwch yr adeiladau a/neu strwythurau eraill a/neu orffeniadau a/neu gyfarpar ac offer yn yr amgylchiadau penodol y mae'n cael ei ddefnyddio.

2.6 Os, wrth berfformio ei ddyletswyddau o dan y Contract hwn, bod y Contractwr yn dod yn ymwybodol ei fod, neu unrhyw unigolyn arall, wedi nodi neu ddefnyddio, neu awdurdodi neu gymeradwyo, manylion neu ddefnydd gan eraill o unrhyw gynnyrch neu ddeunyddiau o'r fath y bydd y Contractwr yn hysbysu'r Cleient yn ysgrifenedig ar unwaith. Nid yw'r cymal hwn yn creu unrhyw ddyletswydd ychwanegol ar gyfer y Contractwr i archwilio neu wirio gwaith eraill nad yw'n ofyniad gan y Contract hwn.

2.7 Os cyn Cwblhau Gwir unrhyw Waith, nad yw deunyddiau, nwyddau neu grefft yn unol â'r Contract hwn, gall y Cleient, heb ragfarn i unrhyw hawliadau eraill sydd gan y Cleient o dan y Contract hwn neu yng nghyfraith, ac yn gyfan gwbl ar gost y Contractwr, gyflwyno cyfarwyddiadau yn gofyn am dynnu neu gywiro'r holl neu unrhyw waith, deunyddiau, nwyddau neu grefft nad yw'n cydymffurfio, fel sy'n angenrheidiol gan y Cleient. Os yw'r Contractwr yn methu â chychwyn cydymffurfio gyda'r cyfarwyddiadau sydd wedi'u cyflwyno o dan gymal 2.7 o fewn cyfnod o 2 ddiwrnod o ddyddiad cyflwyno cyfarwyddiadau o'r fath, gall y Cleient gyflogi eraill i ymgymryd â chyfarwyddiadau o'r fath neu dynnu a chywiro ei hun ond ar gost y Contractwr.

2.8 Os yw'r gyfradd gwaith dydd wedi'i nodi yn yr Archeb, bydd y Contractwr yn ymgymryd ag unrhyw waith dydd ar y cyfraddau hynny yn ddarostyngedig i delerau'r cymal hwn 2.8. Fel cynsail amod i unrhyw daliad o dan y gyfradd gwaith dydd, rhaid i'r Contractwr gael hysbysiad ysgrifenedig gan y Cleient a chymeradwyo cyfyngiad ar wariant ar waith dydd. Byddai methu â chael cymeradwyaeth ysgrifenedig a chytuno ar werth a swm unrhyw waith dydd yn golygu na fyddai gan y Contractwr yr hawl i gael ei dalu. Ar ôl cael cymeradwyaeth ysgrifenedig, ar gyfer holl waith dydd, rhaid i'r Contractwr a'i is-gontractwyr gyflwyno amserlenni gwaith dydd i'w llofnodi gan y Cleient cyn dydd Llun yr wythnos ganlynol, y mae'r gwaith dydd i gael ei wneud. Byddai methiant contractwr i wneud hynny yn golygu na fyddai rhwymedigaeth ar y Cleient i dalu o gwbl i'r Contractwr o ran unrhyw waith dydd o'r fath. Ni fydd llofnod y Cleient ar daflenni gwaith dydd y Contractwr yn golygu derbyn hawliad gwaith dydd y Contractwr neu gywirdeb y taflenni gwaith dydd.

2.9 O fewn un deg pedwar (14) diwrnod o gais ysgrifenedig gan y Cleient, bydd y Contractwr yn darparu gweithredoedd neu weithredoedd gwarant o ran dyletswyddau'r Contractwr o dan y Contract hwn o blaid Cyllidwyr a/neu'r tirfeddiannwr a/neu Brynwyr a/neu Denantiaid, o ran y drafft sydd wedi'i gynnwys yn **Atodlen 1** i'r Contract hwn.

2.10 O fewn dau ddeg un diwrnod (21) o gais ysgrifenedig gan y Cleient, bydd y Contractwr yn darparu gweithredoedd neu weithredoedd gwarant o ran dyletswyddau'r Contractwr o dan y Contract hwn o blaid Cyllidwyr a/neu'r tirfeddiannwr a/neu Brynwyr a/neu Denantiaid, o ran y drafft sydd wedi'i gynnwys yn **Atodlen 1** i'r Contract hwn, mutatis mutandis wedi'i addasu i adlewyrchu'r is-gontractwyr neu ymgynghorwyr yn darparu'r warant.

2.11 Os yw'r Contractwr yn methu â gweithredu a darparu unrhyw weithred neu weithred gwarant yn unol â chymal 2.9 neu 2.10, o fewn y cyfnodau fel yr amlinellir yn y cymalau hynny, yna, ni fydd taliad pellach yn ddyledus i'r Contractwr o dan y Contract tra bod angen cywiro tor amod o'r fath.

2.12 Bydd y Contractwr yn darparu rhaglen ar gyfer y Gwaith cyn y Dyddiad Cychwyn Gwir a bydd yn rhannu diweddariadau os byddai'n gwyro o'r rhaglen wreiddiol. Bydd y Contractwr yn darparu rhaglen wedi'i ddiweddaru i'r Cleient ei hadolygu o fewn pythefnos o dderbyn hysbysiad gan y Cleient. Gall y Cleient rannu hysbysid o'r fath ar unrhyw adeg yn ystod y Gwaith. Mae'r Contractwr yn darparu rhaglen o dan y cymal hwn, 2.12 yn amod cynsail i dalu unrhyw swm sy'n ddyledus, neu i ddod yn ddyledus, o dan y Contract hwn (gan gynnwys i osgoi amheuaeth unrhyw raglen sydd wedi'i ddiweddaru y gofynnwyd amdano gan y Cleient)

2.13 Lle mae'r Contractwr yn darparu gwasanaethau dylunio neu gynghorol fel rhan o'r Gwaith, bydd y Contractwr yn gyfrifol yn llwyr ym mhob agwedd ar gyfer holl ddyluniad y Gwaith (boed os yw unrhyw ddyluniad neu ofynion cychwynnol wedi'u cyflenwi gan eraill) a'r holl ddatblygiad dylunio, dewis nwyddau a deunyddiau a bodloni manylebau perfformio. Bydd y Contractwr yn ymarfer wrth berfformio ei rwymedigaethau dylunio neu gynghorol o dan y Contract hwn holl sgil, gofal, diwydrwydd rhesymol sydd i'w ddisgwyl yn rhesymol gan Gontractwr profiadol mewn gwneud gwaith o faint, cwmpas, cymhlethdod a phwrpas cymharol i'r Gwaith.

3 MYNEDIAD, RHAGLEN A CHYDLYNU

3.1 Oni bai ei fod wedi'i hysbysu fel arall i'r Contractwr, bydd oriau gwaith y Safle rhwng 8am i 5pm dydd Llun i ddydd Gwener, ac eithrio gwyliau cyhoeddus (**"Oriau Gwaith y Safle"**). Gall y Cleient amrywio Oriau Gwaith y Safle o dro i dro. Oni bai wedi cael cyfarwyddyd fel Newid, bydd holl waith sy'n cael ei ymgymryd ag ef gan y Contractwr tu allan i Oriau Gwaith y safle yn cael eu cynnwys yn Swm y Contract.

3.2 Bydd y Cleient yn rhoi mynediad i'r Safle i'r Contractwr yn ystod Oriau Gwaith y Safle fel sy'n ofynnol i alluogi'r Contractwr i wneud a chwblhau'r Gwaith yn unol â'r Contract yn amodol bob amser i fynediad o'r fath wedi'i gyfyngu fel sy'n angenrheidiol i ystyried gofynion yr holl bartïon eraill sydd angen mynediad i'r Safle. Ni fydd y Cleient wedi'i ymrwymo i roi meddiant neu reolaeth lawn o'r safle i'r Contractwr.

3.3 Tybir bod y Contractwr wedi archwilio'r safle a'r amgylchedd ac wedi bodloni ei hun cyn dyddiad y Contract neu ddechrau'r Gwaith (pa un bynnag sydd gynharaf) o ran natur y tir, amodau o dan yr arwyneb ac o dan y pridd (gan gynnwys gwasanaethau, cyfleustodau a rhwystrau eraill) ffurf a natur y safle, cyflwr llawn unrhyw strwythurau presennol, graddau, natur ac anhawster y gwaith a'r deunyddiau sy'n angenrheidiol ar gyfer cwblhau'r Gwaith, dulliau cyfathrebu gyda chyfyngiadau mynediad i'r safle, y llety y bydd ei angen o bosib, ac yn gyffredinol wedi cael iddo ei hun yr holl wybodaeth angenrheidiol o ran risgiau, cynlluniau wrth gefn a holl amgylchiadau eraill sy'n dylanwadu neu yn effeithio ar y Gwaith. I osgoi unrhyw amheuaeth, mae'r Contractwr yn cymryd cyfrifoldeb llawn am gyflwr ffisegol y Safle (gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, gyflwr y tir a'r safle a restrir yng nghymal 3.3) ac ni fydd ganddo hawl i unrhyw estyniad amser nag unrhyw daliad ychwanegol ar sail unrhyw gamddealltwriaeth neu gamddehongli unrhyw fater o'r fath.

3.4 Bydd y Gwaith yn cael ei wneud a'i gwblhau yn unol â'r Rhaglen a rhaid i'r Contractwr gwblhau'r Gwaith erbyn y Dyddiad Cwblhau sydd wedi'i Gynllunio a rhaid iddo fwrw ymlaen yn rheolaidd a diwyd gyda'r Gwaith. Bydd y Contractwr yn sicrhau bob amser bod ganddo'r llafur ac adnoddau digonol dynodedig ar gyfer y Gwaith i sicrhau ei fod yn cydymffurfio gyda'i rwymedigaethau o dan y Contract, gan gynnwys unrhyw Raglen.

3.5 Lle mae gofyn i'r Contractwr gyfathrebu gyda thenantiaid o ran unrhyw waith arfaethedig ar eu heiddo, bydd cyfathrebu o'r fath yn cael ei ymgymryd ag ef yn unol â'r canllawiau sydd wedi'u hamlinellu gan y Cleient. Bydd unrhyw gyfathrebu gyda thenantiaid yn unol â'r cynllun Iaith Gymraeg a pholisi'r cleient ar gyfathrebu gyda thenantiaid.

3.6 Rhaid i'r Rhaglen sydd wedi'i chyflwyno gan y Contractwr adlewyrchu'n gywir, y cynnydd gyda'r Gwaith. Mae'r Dyddiad Cwblhau wedi'i Gynllunio wedi'i osod a gellir ond ei amrywio gan y Cleient yn unol â'r mecanwaith Digwyddiad Iawndal (cymal 4) a'r mecanwaith Newid (cymal 10) o'r Contract hwn. Yn achos bod y gwir ddyddiad wedi'i raglennu ar gyfer Cwblhau'r Gwaith yn hwyrach na'r Dyddiad Cwblhau wedi'i Gynllunio, rhaid i'r Contractwr adlewyrchu hynny yn y Rhaglen ar y cyd gyda chynllun lliniaru'r Contract ar gyfer lleihau'r oedi.

3.7 Yn yr achos bod y Contractwr yn methu â chydymffurfio gyda chymal 3.4 ac yn ddarostyngedig i'r Cleient yn rhoi hysbysiad 7 diwrnod i'r Contractwr, gall y Cleient gymryd mesurau y mae'n ystyried sy'n rhesymol briodol i sicrhau cydymffurfio gyda rhwymedigaethau'r Contract o dan gymal 3.4, gan gynnwys trefnu llafur, adnoddau a deunyddiau ychwanegol i ategu'r Gwaith a bydd y Contractwr yn indemnio'r Cleient yn erbyn holl gostau, colledion, difrod a threuliau sydd wedi'u hachosi o dan y cymal yma 3.7.

3.8 Yn ddarostyngedig i'r Cleient yn rhoi hysbysiad 7 diwrnod i'r Contractwr, gall y Cleient ohirio rhan neu'r holl waith am unrhyw gyfnod y mae'r Cleient yn gofyn. Ni fydd gan y Contractwr hawl i unrhyw addasiad i Swm y Contract, taliad ychwanegol o unrhyw fath, colledion neu ddifrod sydd wedi'u hachosi o ganlyniad i ohirio'r Gwaith yn unol â'r cymal hwn3.8

3.9 Os yw'r Cleient yn cyflwyno Newid i'r Rhaglen cyn y Dyddiad Cychwyn Gwir, ni fydd gan y Contractwr hawl i unrhyw gynnydd yng Nghontract y Swm.

3.10 Bydd y Contractwr yn symud ymlaen cyn gynted ag y bo modd a bydd yn sicrhau na fydd y Cleient nac eraill sy'n gweithio ar y Safle yn cael eu tarfu yn eu gwaith ac na fydd gohirio ychwaith. Bydd y Contractwr yn gweithio ochr yn ochr, yn cydweithio ac yn cydlynu'r Gwaith gyda'r Cleient ac unrhyw unigolion sy'n gweithio yn y Safle. Ni fydd gan y Contractwr hawl i gynnydd yn Swm y Contract ar gyfer cydymffurfio â'r cymal yma, 3.10

3.11 Ac eithrio wedi'i nodi yn benodol yn y Contract hwn, ni fydd y Cleient yn darparu unrhyw bresenoldeb gan gynnwys lles, mynediad (gan gynnwys sgaffaldiau, hositiau, craen gosod pethau uchel ('cherry picker'),a chraen) cyfleusterau storio/cadw neu wasanaethau (gan gynnwys plymio, dŵr, nwy a thrydan) o gwbl a rhaid i'r Contractwr ganiatáu ar gyfer holl eitemau o'r fath yn Swm y Contract ac os oes unrhyw un o'r eitemau yn dod ar gael o dro i dro, bydd y rhain yn cael eu defnyddio ar risg y Contractwr ei hun a gallent gael eu tynnu'n ôl gan y Cleient ar unrhyw adeg heb unrhyw ychwanegiad i Swm y Contract neu hawl i estyniad amser.

3.12 Bydd y Contractwr yn darparu asesiadau risg a COSHH, cynllun diogelwch a/neu ddatganiadau dull ac unrhyw a holl adroddiadau, asesiadau, cynlluniau a dogfennau eraill ar gyfer y Gwaith sy'n ofynnol ac yn unol â'r holl Safonau Statudol cymwys (gan gynnwys Rheoliadau CDM) fel y bydd gofyn gan y Cleient cyn i'r Contractwr gychwyn ar Waith y Contract.

3.13 Bydd y Contractwr yn cydymffurfio gyda'i holl ddyletswyddau statudol o dan Reoliadau CDM ac yn gwarantu ymhellach bod ganddo'r gallu, adnoddau a chapasiti i wneud dyletswyddau'r contractwr a'r dylunydd, a lle nodwyd yn yr Archeb - Prif Ddylunydd a /neu Brif Gontractwr, o dan Reoliadau CDM.

4 HAWLIADAU'R CONTRACTWR

4.1 Mae'r canlynol yn Ddigwyddiadau Iawndal ac eithrio i'r graddau y mae'r canlynol wedi'u hachosi neu wedi cyfrannu at drwy unrhyw ddiffyg ar ran y Contractwr:

(a) Os yw'r Cleient yn cyflwyno Newid ; neu
(b) Mae'r Cleient yn cyflawni unrhyw weithred sy'n rhwystro, diffyg neu atal, boed drwy weithred neu anwaith, wedi'i awdurdodi gan neu drwy dorri'r Contract hwn .

4.2 Bydd y Contractwr yn rhoi hysbysiad i'r Cleient o fewn 7 diwrnod o bryd y daeth yn rhesymol amlwg i'r Contractwr y bydd Digwyddiad Iawndal yn:

(a) Rhwystro'r Contractwr rhag cwblhau'r Gwaith erbyn y Dyddiad Cwblhau sydd wedi'i Gynllunio ; neu
(b) Achosi'r Contractwr i beri cost ychwanegol, difrod, colled neu dreuliau neu bydd unrhyw gynnydd arall yn Swm y Contract; neu
(c) Rhwystro'r Contractwr rhan cydymffurfio ag unrhyw un o'i rwymedigaethau o dan y Contract hwn.

4.3 O fewn 14 diwrnod i'r Cleient yn cael yr hysbysiad y cyfeirir ato yng nghymal 4.2 ac i'r graddau bod y Contractwr yn gallu yn rhesymol ar yr adeg, bydd y Contractwr yn rhoi gwybodaeth ddigonol i'r Cleient i ddangos bod y Cleient wedi'i fodloni'n rhesymol bod gan y Contractwr hawl i estyniad amser a/neu gynnydd yn Swm y Contract fel sy'n gymwys.

4.4 Dim ond os yw'r Contractwr wedi cydymffurfio gyda chymal 4.2 a 4.3 (ar wahân i le mae'r contract yn eithrio hawl y Contractwr i gynnydd yn Swm y Contract neu estyniad amser), bydd gofyn i'r Cleient ganiatáu estyniad amser o'r fath a /neu gynnydd yn

Swm y Contract fel sy'n deg a rhesymol. Wrth bennu beth fyddai'n estyniad amser teg a rhesymol, bydd y Cleient yn ystyried unrhyw gyfnod y mae oedi cydredol wedi digwydd gan y Contractwr.

4.5 Addasu Contract y Swm ac unrhyw estyniad o ran amser yn unol â chymal 4 yw unioni pwrpasol mewn perthynas â Digwyddiadau Iawndal.

4.6 I osgoi unrhyw amheuaeth, gellir ond addasu Swm y Contract a'r Dyddiad Cwblhau wedi'i Gynllunio gan y Cleient yn unol â'r mecanwaith Digwyddiad Iawndal (cymal 4) a'r mecanwaith Newid (cymal 10).

5 EIDDO A RISG

5.1 Bydd pob risg a difrod i bob eitem o'r Gwaith yn aros gyda'r Contractwr hyd Gwblhau Gwir.

5.2 Bydd teitl pob eitem o'r Gwaith (gan gynnwys holl nwyddau a deunyddiau) yn cael ei basio i'r Cleient ar ddarparu pob elfen o'r Gwaith i'r Safle.

6 CWBLHAU

6.1 Bydd hysbysiad o Gwblhau Gwir (a all fod mewn unrhyw ffurf ysgrifenedig gan gynnwys e-bost ac nid oes rhaid iddo adnabod ei hun yn benodol fel hysbysiad o Gwblhau Gwir) yn cael ei gyflwyno gan y Cleient i gadarnhau pryd fydd y Gwaith wedi'i gwblhau yn ymarferol.

6.2 Efallai y bydd y Cleient yn cyflwyno hysbysiad o Gwblhau Gwir, yn ddarostyngedig i rai diffygion neu waith sydd heb ei gwblhau yn cael ei gywiro o fewn yr amserlen sydd wedi'i nodi, o fewn 14 diwrnod Os yw'r Contractwr yn methu â chydymffurfio gyda'i rwymedigaethau o dan y cymal hwn 6.2, efallai bydd y Cleient yn cymhwyso ei hawliau a remedïau o dan y cymal hwn 8.1.

6.3 Os yw'r Gwaith wedi'i gwblhau yn ymarferol neu beidio, mae'n rhag amod i gyhoeddi hysbysiad o Gwblhau Gwir bod y Contractwr yn darparu:

(a) yr holl wybodaeth ac unrhyw Ddogfennau sydd eu hangen ar gyfer y ffeil iechyd a diogelwch fel y nodir yn rheoliadau CDM

(b) yr holl wybodaeth ac unrhyw Ddogfennau sydd eu hangen gan unrhyw awdurdod statudol, awdurdod cynllunio neu reolaeth adeiladu mewn perthynas â'r Gwaith

(c) unrhyw wybodaeth arall neu Ddogfennau a hysbysir fel amod i Gwblhau Gwir gan y Cleient i'r Contractwr

7 CADW

7.1 Bydd gan y Cleient hawl i ddidynnu Cadw o'r symiau sy'n ddyledus hyd y bydd y Gwaith wedi cyrraedd y cam Gwir Gwblhau. Ar ôl Gwir Gwblhau, bydd gan y Cleient hawl i gadw hanner y Ffi hyd amser pan fydd y Cleient yn cyhoeddi hysbysiad Cywiro Diffygion o dan gymal 8.3 neu ddiwedd y Cyfnod Rhwymedigaeth Diffygion, pa un bynnag sydd hwyraf.

8 CYWIRO DIFFYGION

8.1 Yn ystod y Cyfnod Rhwymedigaeth Ddffygion, bydd y Contractwr yn cywiro ar ei gost ei hun unrhyw ddiffygion sy'n dod i'r amlwg yn y Gwaith. Heb ragfarn i hawliau'r Cleient, os yw'r Cleient yn methu gwneud diffygion o'r fath yn gywir o fewn 7 diwrnod i gais i wneud hynny neu mae'r diffyg yn creu argyfwng (gan gynnwys risgiau iechyd a diogelwch), bydd y Cleient o bosib yn cyflogi eraill i wneud diffyg o'r fath yn iawn neu i wneud gwaith ei hun, , i gyd ar gost i'r Contractwr. Bydd modd hawlio cost o'r fath gan y Contractwr fel dyled.

8.2 Heb ragfarn i hawliau'r Cleient yn gyffredinol, os yw'r Contractwr yn torri cymal 8.1, efallai bydd y Cleient yn cadw rhan o'r fath o'r Ffi Cadw i gyfrannu at y costau sydd wedi'u hachosi o dan gymal 8.1.

8.3 Pan fydd y Contractwr wedi cydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan gymal ý8.1, bydd y Cleient yn cadarnhau hyn drwy gyhoeddi hysbysiad bod y diffygion wedi'u cywiro ("**Hysbysiad Cywiro Diffygion**") (y gall fod mewn unrhyw ffurf ysgrifenedig gan gynnwys e-bost, ac nid oes angen iddo adnabod ei hun yn benodol fel Hysbysiad Cywiro Diffygion).

9 DANFONIAD HWYR

9.1 Os yw'r Contractwr yn methu â chyflawni Gwir Gwblhau o'r Gwaith erbyn y dyddiad Cwblhau wedi'i gynllunio, bydd gan y Cleient hawl i hawlio iawndal yn deillio o ddatodiad am y swm ac am y cyfnod a nodir yn yr Archeb, am y cyfnod rhwng Dyddiad Cwblhau wedi'i Gynllunio a Gwir Gwblhau. Os nad yw'r Archeb yn cynnwys swm iawndal yn deillio o ddatodiad (boed y swm wedi'i nodi fel £nil, £0 D/B neu wedi'i adael yn wag), bydd gan y Cleient hawl i hawlio iawndal cyffredinol yn y swm am unrhyw golled/neu dreuliau sydd wedi'i oddef neu achosi gan, neu i'w hachosi, gan y Cleient o ganlyniad i fethiant y Contractwr i gwblhau'r Gwaith erbyn y Dyddiad Cwblhau wedi'i Gynllunio.

9.2 Gall y Cleient hawlio'r swm sy'n ddyledus yn unol â chymal 9.1 gan y Contractwr fel dyled neu osod yn erbyn unrhyw swm sy'n ddyledus yn unol â chymal 9.1 yn erbyn unrhyw swm sy'n dod yn daladwy i'r Contractwr o dan y Contract hwn.

10 NEWIDIADAU

10.1 Gall y Cleient, ar unrhyw adeg cyn Cwblhau Gwir, ofyn i'r Contractwr wneud Newid. Bydd y Contractwr yn cyflwyno Newid ar unwaith ar ôl derbyn cyfarwyddyd i wneud Newid.

10.2 Heb ragfarn i gymal 10.1bydd y Contractwr, yn darparu o fewn 2 ddiwrnod i dderbyn cais gan y Cleient, amcan o'r amser a/neu ganlyniadau cost o gyhoeddi cyfarwyddyd i wneud Newid.

10.3 Yn yr achos bod y cleient yn derbyn amcan y Contractwr yn unol â chymal 10.2, efallai bydd y Cleient yn cyhoeddi cyfarwyddyd i wneud Newid yn nodi'r newid yn Swm y Contract a/neu'r estyniad i amser sydd wedi'i gytuno. Bydd cyfarwyddyd o'r fath yn derfynol rhwng y partïon o ran gweithredu'r Newid.

10.4 Yn yr achos bod y Contractwr yn ymgymryd gyda gwaith sy'n ddarostyngedig i amcan (neu gais am un), o dan gymal 10.2 cyn cael cyfarwyddyd i ymgymryd â'r gwaith hwn, bydd y Contractwr yn ymgymryd â'r gwaith yn ei amser ei hun a risg cost.

10.5 Os nad yw'r Cleient yn derbyn yr amcan a ddarparwyd gan y Contractwr, efallai bydd y Cleient yn rhoi cyfarwyddyd i'r Contractwr i fwrw ymlaen â'r Newid a bydd yn darparu addasiad teg a rhesymol i Swm y Contract a/neu asesiad teg a rhesymol o estyniad i amser. Bydd yr hyn sy'n deg a rhesymol yn yr amgylchiadau yn cael ei asesu a'i benderfynu gan y Cleient.

10.6 Os yw'r Contractwr yn methu â chydymffurfio gyda chyfarwyddyd i wneud Newid ac yn unol â chymal 10.1 a/neu gymal 10.5, o fewn 7 diwrnod, gall y Cleient yn ôl ei ddisgresiwn llwyr, benodi contractwr arall i wneud y gwaith. Bydd unrhyw gostau, colledon a/neu dreuliau y mae'r Cleient wedi'u hachosi (gan gynnwys y gost i'r contractwr arall) yn hawliadwy gan y Contractwr fel dyled.

11 AIL-FESUR

11.1 Lle mae'r Gwaith (neu ran ohono) wedi'i nodi yn benodol yn yr Archeb fel ail-fesuradwy.

(a) Bydd cyfanswm gwerth y gwaith sydd wedi'i gwblhau yn briodol yn cael ei wirio drwy gyfeirio at yr ail-fesur sydd wedi'i wneud yn unol â NRM2 a lle mae'n gymwys unrhyw gyfraddau sydd wedi'u cytuno neu heb eu cytuno ar gyfer y gwaith dan sylw, bydd cyfraddau o'r fath yn deg a rhesymol. Er eglurder, rhaid i'r holl ail-fesuriadau sydd wedi'u hymgymryd â nhw o dan y Contract hwn gydymffurfio â'r cymal hwn (a);

(b) Serch unrhyw ail-fesur gan y Contractwr, efallai y bydd y Cleient yn rhoi hysbysiad 3 diwrnod i'r Contractwr yn gofyn i'r Contractwr fynychu ail-fesur gan y Cleient (naill ai ar y safle neu yn y swyddfa). Bydd y Contractwr yn bresennol wth ail-fesur, darparu cymorth rhesymol i'r Cleient a gall geisio cytuno i'r ail-fesur mewn ewyllys da. Os yw'r Contractwr yn methu gwneud unrhyw un o'r uchod, gall y Cleient ymgymryd â'r ail-fesur ei hun, gan hysbysu'r Contractwr o hynny, bydd yr ail-fesur yn ymrwymo'r naill barti a'r llall.

12 TALIAD

12.1 Bydd gan y Contractwr hawl i wneud un Cais bob mis ar y Dyddiad Cais sydd wedi'i nodi yn yr Archeb, yn dechrau ar y Dyddiad Cais cyntaf ar ôl y Dyddiad Cychwyn Gwir. Oni bai wedi'i gytuno yn ysgrifenedig gan y partïon i'r gwrthwyneb, rhaid i gais terfynol y Contractwr fod ar y Dyddiad Cais sy'n dilyn y dyddiad y mae'r Hysbysiad Cywiro Dffygion wedi'i gyflwyno neu ddiwedd y Cyfnod Rhwymedigaeth Diffygion, pa un bynnag yw'r hwyraf. Ac eithrio nad oes angen i'r Contractwr wneud Ceisiadau yn y misoedd lle nad oes symiau pellach yn ddyledus.

12.2 Nid oes gan y Contractwr hawl i wneud unrhyw gais/anfoneb am dalu ac eithrio yn unol â chymal 12.1 ac ni fydd ganddo hawl i daliad oni bai drwy'r Ceisiadau sydd wedi'u cyhoeddi yn unol â chymal 12.1. Os yw Contractwr yn methu â gwneud cais ar amser neu fel arall yn unol â'r Contract hwn ni fydd unrhyw gais a wnaethpwyd yn ddilys. Fodd bynnag, gall y Cleient yn ôl ei ddisgresiwn llwyr, asesu unrhyw symiau sy'n ddyledus o dan unrhyw gais annilys heb ragfarn i'w hawliau o dan y cymal hwn 12 neu'n gyffredinol.

12.3 Bydd dyddiad dyledus ar gyfer talu pob Cais yn unol â'r hyn a nodir yn yr Archeb.

12.4 Mae dyddiad talu terfynol ar gyfer pob Cais fel y nodir yn yr Archeb.

12.5 Bydd y Contractwr yn cyflwyno eu hanfonebau i'r Cleient yn electronig ar ffurf pdf (heb ei ddiogelu); a bydd yn cynnwys rhif archeb berthnasol y Cleient.

12.6 Dim hwyrach na 5 diwrnod ar ôl y dyddiad y mae taliad yn ddyledus o dan y Contract, bydd y Cleient yn rhoi hysbysiad ("Hysbysiad Taliad) yn nodi'r swm (hyd yn oed os yw swm o'r fath yn sero neu yn ffigur negatif yn nodi'r taliad sy'n ddyledus i'r Cleient) o daliad sydd i'w wneud ar y dyddiad dyledus ("Swm wedi'i Hysbysu") ac yn nodi'r sail ar gyfer cyfrifo'r swm sy'n

ddyledus. Os yw'r Cleient yn methu â rhoi Hysbysiad Talu, bydd y swm a nodir yn y cais perthnasol y Swm a Nodwyd. Yn amodol ar gymal 12.7, bydd y swm a hysbyswyd yn cael ei dalu gan y parti sy'n talu erbyn y dyddiad terfynol ar gyfer talu.

12.7 Os yw'r parti sy'n talu yn bwriadu talu llai na'r Swm sydd wedi'i Hysbysu, bydd y parti sy'n talu, dim hwyrach nag 1 diwrnod cyn y dyddiad Terfynol ar gyfer talu'r Swm sydd wedi'i Hysbysu, yn rhoi hysbysiad talu dyledus i'r parti o unrhyw ostyngiad yn y swm y bwriedir ei dalu ar y dyddiad ar y sail y mae'r swm hwnnw yn cael ei gyfrifo ("Hysbysiad Talu Llai") (hyd yn oed os yw swm o'r fath yn gostwng y taliad y bwriedir ei wneud i sero).

12.8 Yn ddarostyngedig i gymal 12.7, rhaid i'r parti sy'n talu wneud taliad o'r swm sydd wedi'i Hysbysu erbyn y dyddiad Terfynol ar gyfer talu. Os caiff Hysbysiad Talu Llai ei gyflwyno, bydd y swm (os unrhyw) a nodir fel yn ddyledus ar yr Hysbysiad Talu Llai yma, y swm y mae'n rhaid ei dalu erbyn y dyddiad Terfynol ar gyfer talu.

12.9 Os yw'r parti sy'n talu yn methu â gwneud taliad o unrhyw swm sy'n ddyledus erbyn y dyddiad terfynol ar gyfer talu'r swm hwnnw, bydd y parti sy'n talu yn talu yn ychwanegol y swm sydd heb ei dalu, talu llog syml wedi hynny ar gyfer y cyfnod o ddyddiad Terfynol ar gyfer talu i'r dyddiad y mae taliad wedi'i wneud. Bydd y gyfradd llog yn 3% dros Gyfradd sylfaen Banc Lloegr sy'n gyfredol ar ddyddiad y mae taliad terfynol ar gyfer swm o'r fath yn ddyledus. Mae'r partïon yn cydnabod bod cyfradd o'r fath yn remedi sylweddol ar gyfer taliad hwyr fel y'i diffinnir yn y Ddeddf Hwyr-dalu Dyledion Masnachol (Llog) 1988.

12.10 Bydd yn amod cynsail i unrhyw rwymedigaeth o'r Cleient i dalu'r Contractwr yn unol â chymal 12 bod y Contractwr yn:

(a) Llofnodi ac yn dychwelyd yr Archeb;
(b) Darparu tystiolaeth o yswiriant fel sydd o bosib yn ofynnol gan y Contract hwn;
(c) Cwblhau gweithredodd gwarant fel sy'n ofynnol gan y Contract hwn;
(d) Darparu unrhyw ddatganiadau dull neu asesiad risg sy'n ofynnol gan y Contract hwn, yn unol â Rheoliadau CDM
(e) Cyflenwi unrhyw bethau Cyflawnadwy cyn cychwyn fel y nodwyd yn yr Archeb cyn cychwyn ar y Gwaith;
(f) Darparu tystysgrif CIS dilys, cyfredol, gwreiddiol i'r Cleient i'w archwilio neu (os yw'n briodol) y ddogfen ardystio ddilys gwreiddiol yn unol â Chynllun Diwydiant Adeiladu Cyllid y Wlad;
(g) Gwneud, neu fethu â gwneud, unrhyw beth arall sydd wedi'i nodi gan y Contract hwn fel amod cynsail i rwymedigaeth y Cleient i dalu'r Contractwr.

12.11 Lle mae'r Contractwr yn ymrwymo i is-gontract gyda chyflenwr, ymgynghorydd dylunio neu gontractwr at bwrpas perfformio'r gwaith, bydd amod yn cael ei gynnwys oherwydd hynny mewn is-gontract o'r fath sy'n gofyn bod taliad i'w wneud o'r symiau sydd wedi'u hysbysu gan y Contractwr i'r is-gontractwr o fewn cyfnod penodedig, dim mwy na 30 diwrnod o ddyddiad derbyn cais dilys.

12.12 Os yw'r Cleient yn methu â gwneud taliad o unrhyw swm sy'n ddyledus erbyn dyddiad Terfynol ar gyfer talu o'r swm hwnnw yn unol â chymal 12.8, bydd gan y Contractwr hawl i gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig o'i fwriad i atal y cyfan, neu ran, o'i rwymedigaethau o dan y Contract ar y cyd gyda'r sail, neu'r seiliau ar gyfer atal o'r fath. Os, ar ôl derbyn yr hysbysiad i atal, mae methiant y Cleient i dalu yn parhau am 14 diwrnod, bydd gan y Contractwr hawl i atal, bydd gan y Contractwr hawl i gost a chyfraniad rhesymol at ei dreuliau os byddai'n atal y cyfan, neu ran, o'i rwymedigaethau o dan y contract yn unol â'r cymal hwn. 12.12.

13 TERFYNU

13.1 Bydd gan y Cleient am unrhyw reswm beth bynnag (gan gynnwys i osgoi amheuaeth, ar gyfer cyfleustra'r Cleieint) ac yn ei ddisgresiwn llwyr yr hawl i bennu'r Contract drwy roi hysbysiad 7 diwrnod i'r Contractwr.

13.2 Bydd gan y Cleient hawl i bennu'r Contract hwn drwy hysbysiad os yw'r Contractwr:

(a) wedi cyflawni tor-amod difrifol o unrhyw un o delerau ac amodau materol y Contract hwn ac os oes modd cywiro tor-amod o'r fath, bod y Contractwr yn methu ag unioni'r tor-amod hwnnw o fewn gwasanaeth 7 diwrnod o roi hysbysiad yn rhoi manylion y tor-amod ac yn gofyn am gael ei unioni;
(b) wedi cyflwyno deiseb, neu mae cyfarfod yn cael ei gynnull at bwrpas ystyried penderfyniadau neu gamau eraill yn cael eu cymryd i wneud gorchymyn gweinyddu yn erbyn neu i ddirwyn y Contractwr i ben neu orchymyn gweinyddu neu os oes gorchymyn dirwyn i ben yn cael ei wneud neu fod datodwr dros dro yn cael ei benodi o ran y Contractwr neu unrhyw achosion ansolfedd yn cael eu cychwyn (gan gynnwys ffeilio allan o'r llys ar gyfer gweinyddu); neu
(c) nad oes modd i'r Contractwr dalu ei ddyledion yn ôl ystyr Adran 123 o'r Ddeddf Ansolfedd 1986 neu bydd yn methu talu ei ddyledion pan maent yn ddyledus neu yn atal neu yn bygwth atal gwneud taliadau o ran yr holl neu unrhyw ran o'i ddyledion; neu
(d) caiff unrhyw drefniant gwirfoddol ei gynnig o dan Adran 1 o Ddeddf Ansolfedd 1986 o ran y Parti arall; neu
(e) mae'r Parti arall yn cynnig neu yn gwneud unrhyw gompówND neu drefniant neu gompówND gyda, neu unrhyw aseiniad er budd, ei gredydwyr;
(f) Mae'r Contractwr yn destun hawliad am dor-amod Deddf Hawliau Dynol 1998 a/neu Ddeddf Cydraddoldeb 2010;
(g) Mae'r Contractwr yn destun ymchwiliad ffurfiol, neu yn destun hawliad yn codi, neu mewn cysylltiad â'i rwymedigaethau statudol yn berthnasol i hawliau cyflogaeth, perthnasoedd cyflogaeth, hawliau gweithio neu gydraddoldeb;
(h) mae'r Contractwr yn destun ymchwiliad ffurfiol ar gyfer neu yn destun erlyniad ar gyfer unrhyw drosedd o dan Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015; neu
(i) Unrhyw beth cyffelyb i unrhyw un o'r digwyddiadau a ddisgrifir yng nghymalau (b) i (i),sy'n digwydd, gan gynnwys o dan unrhyw Ofynion Statudol.

13.3 Lle mae'r Contractwr yn cyflawni tor-amod difrifol o unrhyw Ofynion Statudol neu reoliadau'r diwydiant, mae'r Cleient yn cadw'r hawl i atal ar unwaith y Contractwr i ddisgwyl am ymchwiliad pellach. Ni fydd gan y Contractwr hawl i addasiad i Swm y Contract nag unrhyw estyniad amser am gyfnod yr atal yn unol â'r cymal hwn 13.3

14 CANLYNIADAU TERFYNU

14.1 Os yw cyflogaeth y Contractwr o dan y Contract hwn yn cael ei bennu yn unol â chymal 13.1, bydd y Cleient yn talu i'r Contractwr swm teg a rhesymol ar gyfer y Gwaith sydd wedi'i wneud hyd at y dyddiad pennu o'r fath ynghyd â lwfans rhesymol ar gyfer costau terfynu ond ni fydd yn cynnwys, ac ni fydd gan y Contractwr hawl i adennill, unrhyw gostau, colledion neu ddifrod o unrhyw fath, gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i unrhyw golli elw, refeniw, costau cychwynnol, gorbenion, ewyllys da, costau ariannu ac unrhyw golled anuniongyrchol neu ganlyniadol. Yn achos pennu o dan gymal 13.1, bydd y Cleient yn rhydd i ymgysylltu eraill i gwblhau'r Gwaith neu o bosib, bydd yn cwblhau'r Gwaith ei hun.

14.2 Os yw cyflogaeth y Contractwr o dan y Contract hwn yn cael ei bennu yn unol â chymal 13.2'

(a) Bydd holl daliadau sy'n ddyledus ac unrhyw daliadau pellach sy'n dod yn ddyledus i'r Contract o dan y Contract hwn yn cael eu hatal ar unwaith;

(b) Bydd y Contractwr ar unwaith yn darparu'r Dogfennau ac unrhyw warantau cyfochrog sydd wedi'u cwblhau cyn belled nad oes gan y Cleient ddogfennau o'r fath eisoes;

(c) Bydd perchnogaeth y Dogfennau yn cael ei drosglwyddo o'r Contractwr i'r Cleient ar unwaith cyn pennu cyflogaeth y Contractwr o dan gymal 13.2

(d) Efallai y bydd y Cleient yn ymgysylltu eraill i gwblhau'r Gwaith (gan gynnwys unrhyw gywiro diffygion) neu efallai y bydd yn gwneud gwaith o'r fath ei hun;

(e) O fewn 14 diwrnod i gyflwyno Hysbysiad Cywiro Diffygion neu 18 mis ar ôl pennu'r Contract hwn (pa un bynnag sydd hwyraf), bydd y Cleient yn paratoi cyfrif yn nodi cyfanswm gwerth y Gwaith ar y dyddiad pennau llai'r costau priodol a'r colledion sydd wedi'u hachosi gan y Cleient o ganlyniad i unrhyw un o'r amgylchiadau a restrir yng nghymal ý13.2 a bydd y partïon wedi hynny yn gwneud unrhyw daliad balans angenrheidiol a nodir yn y cyfrif.

(f) Ar neu cyn dyddiad pennu'r Contract hwn, bydd y Contractwr yn sicrhau bod yr holl ddogfennau a/neu gofnodion cyfrifiadur yn ei feddiant, cystodaeth neu reolaeth sy'n berthnasol i wybodaeth bersonol o gyflogeion y Cleient, trethdalwyr neu ddefnyddwyr gwasanaeth, yn cael eu darparu i'r Cleient neu eu dinistrio mewn ffordd ddiogel.

14.3 Bydd unrhyw ddarpariaeth o'r Contract hwn sy'n mynegi'n benodol neu drwy awgrymu i ddod neu i barhau mewn grym ar neu ar ôl terfynu neu ar ddiwedd cyfnod y Contract hwn (bydd yn parhau mewn grym ac effaith).

14.4 Ni fydd terfynu neu ddod i ben y Contract hwn yn effeithio ar unrhyw hawliadau, remedïau, rhwymedigaethau neu atebolrwyddau'r partïon sydd wedi cronni hyd y dyddiad terfynu neu ddod i ben, gan gynnwys yr hawl i hawlio iawndal o ran unrhyw dor-amod o'r Contract hwn a oedd yn bodoli ar neu cyn y dyddiad terfynu neu ddod i ben.

15 TERFYNU OHERWYDD LLYGREDD

15.1 Yn ychwanegol at yr hawliau terfynu a nodir yng nghymalau 13.1 ac 13.2, bydd gan y Cleient hawl i derfynu'r contract hwn ac i adennill gan y Contractwr y swm am unrhyw golled o ganlyniad i ganslo'r Archeb neu os yw'r Contractwr wedi cynnig, neu wedi rhoi, neu wedi cytuno i roi, i unrhyw unigolyn, unrhyw rodd neu ystyriaeth o unrhyw fath fel cymhelliad neu wobr am wneud neu ymatal rhag gwneud unrhyw weithred o ran cael neu gwblhau'r Archeb hon neu unrhyw gontract arall â'r Cleient neu am ddangos neu ymatal rhag dangos ffafriaeth neu anffafriaeth i unrhyw unigolyn o ran yr Archeb hon neu unrhyw gontract arall neu fod gweithredoedd tebyg wedi'u gwneud gan unrhyw unigolyn a gyflogir gan neu yn gweithredu ar ei ran (boed yn hysbys neu yn ddiarwybod i'r Contractwr) neu mewn perthynas ag unrhyw gontract gyda'r Cleient, bydd y Contractwr neu unrhyw unigolyn a gyflogir ganddo neu sy'n gweithredu ar er ran wedi cyflawni unrhyw drosedd o dan Ddeddf Llwgrwobrwyo 2010 neu unrhyw addasiad neu ddeddfwriaeth sy'n olynu.

16 IECHYD A DIOGELWCH

16.1 Bydd y Contractwr yn talu sylw manwl i ddiogelwch unigolion a allai gael eu heffeithio mewn unrhyw ffordd o ran y Gwaith a bydd yn cydymffurfio gyda gofynion Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 a'i fframwaith is-reoleiddio, ac unrhyw Ofynion Statudol yn berthnasol i iechyd a diogelwch unigolion.

16.2 Bydd y Contractwr yn cynnal holl brofion ac archwiliadau angenrheidiol cyn darparu'r Gwaith i sicrhau bod y Gwaith wedi'i ddylunio, adeiladu a'i ddarparu i fod yn ddiogel a heb risg i iechyd a diogelwch yr unigolion sy'n ei ddefnyddio. Bydd y Contractwr yn rhoi gwybodaeth ddigonol i'r Cleient am y defnydd y mae'r Gwaith wedi'i ddylunio ac wedi'i brofi am yr amodau sy'n angenrheidiol i sicrhau pan fyddant yn cael eu rhoi i ddefnydd, bod y Gwaith yn ddiogel a heb risg i iechyd.

16.3 Drwy gydol y cynnydd gydag unrhyw Waith, bydd y Contractwr yn cadw'r Safle mewn trefn a bydd yn darparu ac yn cynnal ar ei gost ei hun yr holl oleuadau, giardiau, ffensio ac arwyddion rhybuddio ac unrhyw systemau eraill sy'n ofynnol i ddiogelu'r Gwaith a'r diogelwch a chyfleuster y cyhoedd ac eraill.

16.4 Mae'r Cleient yn gofyn i'r Contractwr ddangos cynlluniau wrth gefn cadarn drwy ddulliau priodol. Rhaid i'r Contractwr fodloni'r Cleient bod ganddo Bolisi Cynllunio Parhad Busnes gyda threfniadau wrth gefn wedi'u profi ar waith. Yn dibynnu ar bwysigrwydd a graddfa'r Gwaith i'w ddarparu, mae'r Cleient yn cadw'r hawl i ofyn am dystiolaeth fanwl o gynlluniau wrth gefn y Contractwr fel gweld Cynllun Parhad Busnes y Contractwr, presenoldeb y Contractwr mewn unrhyw ymarfer cynllun wrth gefn neu i gynnal archwiliad o drefniadau cynlluniau wrth gefn y Contractwr (gellir darparu ar gais, enghreifftiau o beth ddylai Cynllun Parhad Busnes ei gynnwys)

17 CYFLEOEDD CYFARTAL, YMCHWILIADAU'R OMBWDSMON A DIOGELU HAWLIAU DYNOL

17.1 Ni fydd y Contractwr yn gwahaniaethu yn anghyfreithlon o fewn ystyr a chwmpas darpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010 neu unrhyw addasiad statudol neu ailddeddfiad yn berthnasol i wahaniaethu wrth ddarparu'r gwaith i'r cyhoedd neu mewn cyflogaeth neu yn groes i Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Bydd y Contractwr i'r graddau sy'n berthnasol i ddarparu Gwaith yn cydymffurfio â pholisïau cyfle cyfartal, sydd ar gael drwy gysylltu ag ymholiadau@adra.org.uk. Bydd y Contractwr yn cymryd camau rhesymol i ddiogelu arsylwi ar y darpariaethau hyn gan holl gyflogeion neu asiantau'r Contractwr a holl is-gontractwyr sydd wedi'u cyflogi i gwblhau'r Contract.

17.2 Os bydd naill ai archwilwyr mewnol neu allanol y Cleient yn dymuno ymchwilio'r Contract, bydd y Contractwr yn darparu gwybodaeth o'r fath, mynediad a chydweithrediad fel y bydd gofyn yn rhesymol gan yr unigolion hynny

17.3 Bydd y Contractwr wrth ddarparu'r Gwaith yn cydymffurfio yn llwyr gyda Gofynion Statudol y Cleient (gan gynnwys Deddf Plant 2004 a Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006) i ddiogelu a hybu lles plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed pan maent ar safle neu eiddo'r Cleient lle bydd y grwpiau hyn yn bresennol. Bydd y Contractwr yn sicrhau bod eu holl staff yn deall y ddyletswydd a osodwyd arnyn nhw i ddiogelu a hybu lles y grwpiau agored i niwed hyn. Ymhellach, bydd y Contractwr yn sicrhau bod ei holl staff yn deall bod plant ac oedolion agored i niwed yn ystyried bod gweithwyr ar y safle yn bobl ddibynadwy. Mae gan y gweithwyr hyn, felly, ddyletswydd i ymddwyn mewn ffordd, na fydd yn torri'r ymddiried yma. Bydd y Contractwr yn sicrhau bod eu gweithwyr wedi'u penodi yn unol â phrosesau recriwtio diogel y Cleient. Bydd y Contractwr yn darparu prawf cofrestru gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a bydd yn cydymffurfio yn llym ag unrhyw weithdrefnau cysylltiedig.

17.4 Bydd y Contractwr yn ymgymryd â Datgeliadau Datgelu a Gwahardd ar gyfer holl staff lle'n gymwys a bydd cofnodion yn cael eu cadw bod gwiriadau o'r fath wedi'u gwneud. Ni fydd unrhyw gontract yn cael ei dyfarnu hyd nes y bydd prawf cofrestru gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi dod i law. Bydd y Contractwr yn atebol am unrhyw gostau sydd wedi'u hachosi. Mae'r Cleient yn cadw'r hawl i ofyn i'r Contractwr ddarparu tystiolaeth bod gweithiwr wedi bod yn destun gwiriad Datganiad uwch gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd pan fydd gofyn.

17.5 Rhaid i gyflogeion y Contractwr ac is-gontractwr gario manylion adnabod ffotograffig gyda nhw bob amser. Mae'r Cleient yn cadw'r hawl i fonitro yn drwyadl ymddygiad staff ar gontract pan fydd gwaith yn cael ei wneud. Gallai camarfer, esgeuluso neu gam-drin plentyn, pobl ifanc neu oedolion agored i niwed gan weithiwr ar gontract arwain at rybudd yn cael ei gyflwyno gan y Contractwr, neu mewn achosion o esgeulustod difrifol gan Gontractwr, canslo'r Contract. Mae'r Cleient yn cadw'r hawl i dynnu'n barhaol unrhyw aelod o staff y Contractwr neu is-gontractwr o'r safle neu o'u cysylltiad gyda'r Gwaith.

18 Diogelu Data

18.1 At ddibenion y cymal hwn:

mae "Deddfwriaeth Diogelu Data"

yn golygu'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data ("GDPR y DU"), Deddf Diogelu Data 1998, Deddf Diogelu Data 2018, Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000, Rheoliadau Telegyfathrebu (Arferion Busnes Cyfreithlon) (Rhyng-gipio Cyfathrebiadau) 2000, unrhyw gyfreithiau ychwanegol neu bellach, cyn belled ag y mae'n berthnasol i brosesu data a holl gyfreithiau a rheoliadau cymwys sy'n berthnasol i brosesu unrhyw ddata personol, a phreifatrwydd, gan gynnwys lle'n gymwys y canllaw a chod ymarfer sydd wedi'u cyhoeddi gan y Comisiynydd Gwybodaeth.

mae "Rheolydd Data"

yn golygu'r "rheolydd" fel sydd wedi'i ddiffinio yn Neddf Diogelu Data 2018

Mae "Prosesydd Data"

yn golygu 'prosesydd' fel sydd wedi'i ddiffinio yn Neddf Diogelu Data 2018

Mae 'Data Personol"

yn golygu 'data personol' fel sydd wedi'i ddiffinio yn Neddf Diogelu Data 2018 ac ond yn berthnasol i ddata personol, neu unrhyw ran o ddata personol o'r fath; y Cleient yw'r Rheolydd Data ac mae'r Contractwr yn darparu gwaith o dan y Contract hwn.

18.2 O ran hawliau a rhwymedigaethau'r partïon o dan y Contract hwn a Deddfwriaeth Diogelu Data, mae'r partïon yn cydnabod mai'r Cleient yw'r Rheolydd Data a'r Contractwr yw'r Prosesydd Data.

18.3 Bydd y Contractwr (a bydd yn sicrhau bod unrhyw is-gontractwr a/neu drydydd parti yn) cydymffurfio bob amser gyda deddfwriaeth Diogelu Data a rhwymedigaethau Prosesydd Data o ran Data Personol sydd ym meddiant y Cleient ac ni fydd yn perfformio ei rwymedigaethau o dan y Contract hwn mewn unrhyw ffordd a fyddai'n achosi i'r Cleient dorri ei rwymedigaethau o dan Ddeddfwriaeth Diogelu Data.

18.4 I osgoi amheuaeth, byddai methiant y Contractwr i gydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan y cymal hwn,18 hefyd yn fethiant i gydymffurfio â'i rwymedigaethau cyffredinol i wneud y Gwaith mewn cydymffurfiad gyda Gofynion Statudol.

19 RHYDDID GWYBODAETH A THRYLOYWDER

19.1 Mae'r Contractwr yn cydnabod oni bai bod y Cleient wedi hysbysu'r Contractwr bod y Cleient wedi'i eithrio o ddarpariaethau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ("FOIA"), mae'r Cleient yn ddarostyngedig i ofynion y Cod Ymarfer ar Wybodaeth y Llywodraeth, FOIA a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004. Mae'r Contractwr yn cydweithredu ac yn cynorthwyo'r Cleient er mwyn galluogi'r Cleient i gydymffurfio gyda'i oblygiadau datgelu gwybodaeth.

19.2 Bydd y Contractwr yn:

(a) trosglwyddo i'r Cleient holl geisiadau am wybodaeth sy'n dod i law cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib ac mewn unrhyw achos o fewn 2 ddiwrnod busnes i dderbyn cais am wybodaeth.

(b) darparu'r Cleient gyda chopi o'r holl wybodaeth yn ei feddiant neu bŵer ar ffurf y mae'r Cleient ei angen o fewn pump diwrnod busnes (neu gyfnod arall y bydd y Cleient yn ei nodi) ar gais y Cleient.

(c) darparu'r holl wybodaeth angenrheidiol fel y mae gofyn yn rhesymol gan y Cleient i alluogi'r Cleient i ymateb i'r cais am wybodaeth o fewn yr amser i gydymffurfio ag adran 10 o'r FOIA neu reoliad 5 o'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol; a

(d) bydd yn caffael bod ei is-gontractwyr yn gwneud yr un fath;

19.3 Mae'r Cleient yn gyfrifol am bennu yn ôl ei ddisgresiwn llwyr a yw unrhyw wybodaeth wedi'i eithrio rhag cael ei ddatgelu yn unol â darpariaethau'r Cod Ymarfer ar Wybodaeth y Llywodraeth, FOIA neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.

19.4 Nid yw'r Contractwr yn ymateb yn uniongyrchol i gais am wybodaeth oni bai ei fod wedi'i awdurdodi i wneud hynny gan y Cleient.

19.5 Mae'r Contractwr yn cydnabod y gallai'r Cleient, yn gweithredu yn unol â Chod Ymarfer yr Adran Materion Cyfansoddiadol ar Gyflawni Swyddogaethau Awdurdodau Cyhoeddus o dan Ran 1 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 bod yn rhwym i ddatgelu gwybodaeth heb ymgynghori na chael cydsyniad y Contractwr neu er gwaethaf bod y Contractwr wedi mynegi barn negyddol pan ymgynghorwyd ag ef.

19.6 Mae'r Contractwr yn sicrhau bod yr holl wybodaeth yn cael ei gadw ar gyfer ei ddatgelu drwy gydol y cyfnod cadw o 12 mlynedd ac yn caniatáu i'r Cleient archwilio cofnodion o'r fath pryd a phan ofynnir yn rhesymol am wneud hynny o dro i dro.

20 YSWIRIANT

20.1 Bydd y Contractwr yn cadw'r yswiriant sydd wedi'i ddatgan yn yr Archeb o'r Dyddiad Cychwyn Gwir hyd 12 mlynedd ar ôl Gwir Gwblhau'r Gwaith.

20.2 Bydd yswiriant o'r fath yn cynnwys hawl amnewid o blaid y Cleient, lle mae'r Cleient yn goddef colled oherwydd esgeulustod y Contractwr, gall yswirwyr y Cleient geisio adennill y golled gan yswirwyr y Contractwr.

20.3 Os neu os nad yw'r yswiriant yn cael eu darparu ar eu cyfer yn yr Archeb, bydd y Contractwr yn yswirio ei hun yn erbyn holl rwymedigaethau yswirio o dan y Contract, gan gynnwys caffael yswiriant indemniad proffesiynol os yw'r Contractwr yn ymgymryd â dylunio neu waith cynghorol arall fel rhan o'r Gwaith. Bydd isafswm yr indemniad o yswiriant o'r fath, os nad yw wedi'i nodi yn yr Archeb, y swm y byddai disgwyl gan Gontractwr sy'n ymgymryd â gwaith o faint, cwmpas a chymhlethdod sy'n debyg i'r Gwaith a rhaid cadw yswiriant o'r fath am yr amser sydd wedi'i nodi yng nghymal 20.1.

20.4 Ar gais y Cleient, rhaid i'r Contractwr gyflenwi tystiolaeth bod ganddo yswiriant a gyfeirir ato yng nghymal 20.

21 GWERTH CYMDEITHASOL

21.1 Mae'r Cleient wedi ymrwymo i weithio tuag at egwyddorion fel sydd wedi'u nodi yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Contractwr yn cydnabod, yn dilyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, bod gofyn i'r Cleient ystyried sut y mae'r Gwaith yn gwella economi, lles cymdeithasol ac amgylcheddol yr ardal. I fesur cynnydd y Cleient, bydd y Cleient yn mabwysiadu dull monitro cenedlaethol, TOM (Thema, Canlyniad, Mesurau); dull o fonitro, adrodd a chydymffurfio â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, neu ddull arall o fesur effaith gwerth cymdeithasol y Gwaith fel y mae'r Cleient yn hysbysu'r Contractwr ohono o dro i dro.

21.2 Mae'r Cleient wedi nodi yn y Fanyleb, neu yn ystod y broses dendro, neu bydd yn diweddaru'r Contractwr o dro i dro, o'r isafswm gofynion adrodd sy'n gyffredin i brosiectau Cymru TOM genedlaethol (neu ddull arall o fesur effaith gymdeithasol y Gwaith fel y mae'r Cleient yn hysbysu'r Contractwr) ynghyd ag unrhyw fesurau ychwanegol y mae'r Cleient yn gofyn i'r Contractwr gydymffurfio ag ef. Yn ystod y broses dendro ar gyfer y Contract, neu yn fuan wedyn, mae'r Contractwr wedi cwblhau, neu bydd gofyn iddo gwblhau'r cyfrifiad gwerth cymdeithasol TOM, neu ddata arall o'r fath /neu offer monitro gwybodaeth neu broses fel sy'n ofynnol gan y Cleient ("y**r Offer Mesur Gwerth Cymdeithasol**"). Mae'r Contractwr yn gwarantu y bydd yn cyflawni'r lefelau sy'n cael eu cynnig yn yr Offer Mesur Gwerth Cymdeithasol ar gyfer pob un o'r mesuriadau o fewn yr amserlenni a nodir yn yr Offer Mesur Gwerth Cymdeithasol.

21.3 Bydd y Contractwr yn sicrhau na fydd unrhyw gyflogai cyfredol y Contractwr nag unrhyw gyflogai cyfredol o unrhyw un o'r is-gontractwyr (o unrhyw haen) yn dod yn ddi-waith o ganlyniad i roi'r Offer Mesur Gwerth Cymdeithasol ar waith.

21.4 Bydd y Contractwr yn darparu adroddiadau i'r Cleient yn chwarterol (neu amserlen / cyfnod arall o'r fath fel sy'n cael ei bennu gan y Cleient yn ysgrifenedig) o ddyddiad y Contract hwn yn y ffurf a nodir gan y Cleient yn nodi cynnydd a chyflawniadau yn erbyn yr Offer Mesur Gwerth Cymdeithasol. Bydd y Contractwr hefyd yn darparu gwybodaeth ychwanegol o'r fath y bydd y Cleient yn rhesymol yn gofyn amdano i sefydlu i ba raddau y mae gofynion yr Offer Mesur Gwerth Cymdeithasol yn cael eu cyflawni.

21.5 Serch unrhyw ddarpariaeth yn y Contract hwn ac yn ychwanegol at unrhyw hawl neu unioni arall ar ran y Cleient, bydd darparu'r adroddiadau a gwybodaeth ofynnol o dan gymal 21.4, dim hwyrach na 1 wythnos ar ôl y dyddiad dyledus yn amod cynsail i hawl y Contractwr i daliad llawn o unrhyw swm sy'n ddyledus o dan y Contract hwn.

21.6 Yn achos nad yw'r Contractwr yn gallu cyflawni'r rhwymedigaethau gwerth cymdeithasol fel y darperir yn yr Offer Mesur Gwerth Cymdeithasol, neu fel arall yn methu â chyflawni unrhyw un o'r mesurau a nodir yn yr Offer Mesur Gwerth Cymdeithasol o dan y Contract hwn, gall y Cleient:

(a) Gyfarwyddo'r Contractwr i newid cydbwysedd y mesurau yn yr Offer Mesur Gwerth Cymdeithasol i sicrhau bod canran cyffredinol gwerth cymdeithasol yn cael ei gynnal, fel caniatáu gostyngiad mewn un mesur a chynnydd cymesur mewn mesur arall a/neu

(b) adennill gan y Contractwr gwerth enwol unrhyw fesurau sydd wedi methu fel y darperir gan yr Offer Mesur Gwerth Cymdeithasol, neu os nad yw cyfrifiad o'r fath yn cael ei ddarparu yn unswydd, fel y mae'r Cleient yn cyfrifo sy'n deg a rhesymol

22 DOGFENNAU

22.1 Mae'r Contractwr yn rhoi trwydded ddi-droi'n-ôl, anghyfyngol, heb freindal i'r Cleient i ddefnyddio ac atgynhyrchu unrhyw un o'r lluniadau, manylion, manylebau a chyfrifiadau sydd wedi'u neu yn cael eu paratoi i neu ar ran y Contractwr yn berthnasol i'r Gwaith a'r lluniadau sydd wedi'u cynnwys ynddynt (gan gynnwys i osgoi amheuaeth unrhyw Ddogfennau) at bwrpas yn gysylltiedig â'r Gwaith ac i ganiatáu is-drwyddedau o ran y drwydded hon ond bydd hawlfraint yn y Dogfennau yn parhau yn rai sydd wedi'u rhoi i'r Contractwr. Ni fydd y Cleient yn atebol am unrhyw ddefnydd o'r Dogfennau at unrhyw ddibenion ar wahân i'r dibenion yr oedd y rhain yn neu wedi'u paratoi ar gyfer yr un fath. Bydd gan y Cleient hawl drwy gais ysgrifenedig i gael copïau o'r Dogfennau gan y Contractwr.

22.2 Bydd y Cleient yn gwarantu ac yn indemnio'r Cleient yn achos torri cymal 22.2, na fydd defnydd o'r Dogfennau at ddibenion y Gwaith yn torri hawliau unrhyw drydydd person.

23 CYFRIFOLDEBAU AC INDEMNIADAU

23.1 Bydd y Contractwr yn indemnio ac yn digolledu'r Cleient yn erbyn a rhag holl hawliadau, camau, costau, colledion a threuliau o ran:

(a) Unrhyw esgeulustod neu dorri dyletswydd ar ran y Contractwr, ei is-gontractwyr, ei neu eu gweision neu asiantau;
(b) Unrhyw dor-amod gan y Contractwr o unrhyw un o'i rwymedigaethau o dan y Contract hwn, gan gynnwys i osgoi amheuaeth o fethiant i gydymffurfio gyda Gofynion Statudol o ran iechyd a diogelwch a allai arwain at ymchwiliad, erlyniad neu weithred arall gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (neu gorff perthnasol neu olynydd);
(c) Unrhyw weithred neu anwaith ar ran y Contractwr, ei is-gontractwyr, neu ei/eu gweision neu asiantau sy'n cynnwys y Cleient mewn unrhyw rwymedigaeth i unrhyw berson; ac
(d) Unrhyw ddifrod a achosir i'r Cleient, eiddo'r Cleient, ac unrhyw berson arall neu unrhyw berson arall neu eiddo unrhyw berson arall gan y Gwaith.

24 ASEINIO AC Is-osod

24.1 Ni fydd y Contractwr yn, naill ai yn ôl y gyfraith neu mewn ecwiti yn, aseinio, codi tâl, is-gontractio, is-osod, trosglwyddo, ffactro (gan gynnwys wrth ffactoreiddio dyled neu drefniant tebyg) neu fel arall ildio'r Contract hwn neu unrhyw ran ohono neu unrhyw un o'i oblygiadau neu rwymedigaethau heb ganiatâd ysgrifenedig y Cleient.

24.2 Bydd y Cleient yn aseinio er budd y Contract hwn (naill ai yn gyfan gwbl neu yn rhannol) ar unrhyw adeg i unrhyw unigolyn.

24.3 Yn yr achos bod y Contractwr yn ymrwymo i unrhyw is-gontract mewn cysylltiad â'r Contract hwn, bydd yn:

(a) parhau yn gyfrifol i'r Cleient am berfformio ei rwymedigaethau o dan y Contract serch penodi unrhyw is-gontractwr ac yn gyfrifol am weithredoedd, anweithiau, ac achosion o esgeulustod ei is-gontractwr;
(b) Gorfodi rhwymedigaethau ar ei is-gontractwr ar yr un telerau â'r rheini sydd wedi'u gorfodi neu yn unol â'r Contract hwn a bydd yn caffael bod yr is-gontract yn cydymffurfio â thelerau o'r fath;
(c) Darparu copi, heb godi tâl ar y Cleient, o unrhyw is-gontract o'r fath ar ôl cael cais gan y Cleient; a
(d) bydd yn gofyn i'r is-gontractwr ymrwymo i warant gyfochrog yn unol â chymal 2.10 o'r Contract hwn.

24.4 Bydd y Contractwr yn sicrhau bod ei is-gontractwyr a chyflenwyr wedi derbyn rhwymedigaethau sy'n cyfateb i'r rheini a nodir yng nghymalau 2.3 a 2.3 (a) i (f) y Contract hwn.

24.5 Serch unrhyw derm arall yn y contract hwn, nid oes unrhyw beth yn y Contract hwn yn rhoi neu yn honni i roi unrhyw hawl i orfodi telerau'r Contract hwn ar unrhyw barti nad yw'n barti i'r Contract hwn at ddibenion Deddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon)1999.

25 WEDI'U CYMERADWYO

25.1 Ni fydd unrhyw archwiliad, profi, cymeradwyo, mesur (neu ail-fesur) neu adolygiad nac unrhyw anweithred i archwilio, profi, cymeradwyo neu adolygu ar ran y Cleient yn lleihau unrhyw ddyletswydd neu rwymedigaeth trwy hyn gan y Contractwr.

26 GOSOD YN ERBYN

26.1 Ni fydd unrhyw beth sydd wedi'i gynnwys yn y Contract hwn yn disodli neu gyfyngu unrhyw hawl y Cleient o dan unrhyw statud neu reol y gyfraith neu ecwiti o ran gosod yn erbyn neu atal Swm y Contract.

27 ANGHYDFODAU

27.1 Os yw anghydfod neu wahaniaeth yn deillio o, o dan neu yn gysylltiedig â'r Contract, gall y naill barti neu'r llall gyfeirio at ddyfarniad ar unrhyw adeg yn unol â darpariaethau dyfarnu Rhan1, yr Atodlen i'r Rheoliadau Cynllun Contractau Adeiladu (Cymru a Lloegr 1998), fel y'i diwygiwyd ond gyda Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig fel y corff dyfarnu sydd wedi'i enwebu.

28 HYSBYSIADAU

28.1 Gellir cyflwyno unrhyw hysbysiadau i'w cyflwyno i'r Cleient yn unol â'r Contract hwn drwy unrhyw ddull effeithiol gan gynnwys e-bost i unrhyw gyfeiriad e-bost dilys y Contractwr. Oni bai ei fod wedi'i gytuno'n unswydd yn ysgrifenedig gan y Cleient i ddull gwahanol o hysbysu, rhaid i holl hysbysiadau sydd i'w cyflwyno gan y Contractwr yn unol â'r Contract hwn, gael eu danfon naill ai drwy law neu ddanfoniad wedi'i gofrestru i'r cyfeiriad sydd wedi'i nodi yn yr Archeb. Cyn belled bod yr hysbysiadau wedi'u danfon drwy'r dulliau a ganiateir yng nghymal 28, bydd hysbysiad o'r fath yn dod i rym o ddyddiad danfon i'r parti perthnasol. Os nad yw hysbysiadau wedi'u cyflwyno yn unol â chymal 28, ni fyddant yn ddilys.

28.2 Lle o dan y Contract hwn mae angen gweithredu (neu gyflwyno hysbysiad) o fewn cyfnod penodol o ddyddiau ar ôl neu o ddyddiad penodedig, bydd y cyfnod yn dechrau ar unwaith ar ôl y dyddiad hwnnw.

29 Y GYFRAITH

29.1 Bydd y Contract yn ddarostyngedig i gyfraith Cymru a Lloegr (fel sy'n gymwys yng Nghymru) ac, yn ddarostyngedig i hawliau'r partïon i ddyfarniad yn unig , rhaid i'r partïon ymarfer dyfarniad neilltuedig Llysoedd Cymru a Lloegr.

ATODLEN 1 - GWARANTAU CYFOCHROG